Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynllun Pwnc Hanes

Mawrth 2018

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd – destun
Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae “Tuag at 2020 a thu hwnt” yn gynllun strategol sy’n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu’r Coleg http://bit.ly/2rtflxT

Mae’r Cynllun Pwnc Hanes a Hanes Cymru yn gosod yr egwyddorion a’r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Mae’r cynllun hwn yn weithredol mewn cyfnod o newid o fewn y sector addysg uwch. Hefyd, ceir pynciau megis Gwleidyddiaeth, Cyfraith, Athroniaeth a Newyddiaduraeth sydd yn atyniadol i fyfyrwyr sy’n draddodiadol wedi astudio’r pwnc. Ond yma hefyd, ceir cyfleoedd a gall modiwlau Hanes a Hanes Cymru gael eu cynnwys mewn nifer o gyrsiau gradd mewn pynciau eraill.

Proses
Cam cyntaf y broses o lunio’r cynllun hwn oedd derbyn ymatebion sefydliadau i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae’r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu
Tra'r oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o’r radd flaenaf i’r myfyrwyr sy’n dewis astudio o leiaf cyfran o’u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i’r egwyddor honno.

Wrth weithredu’r cynllun newydd bydd angen canfod dulliau o barhau i gefnogi pwnc sydd â thraddodiad hir o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau nad yw’n colli tir o safbwynt yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth sydd nawr ar gael yn y Gymraeg. Dylid cynnal a diogelu’r amrywiaeth eang o feysydd a chyfnodau y mae modd eu hastudio ar ffurf modiwlau cyfrwng Cymraeg, a sicrhau llwybr(au) ôl-radd pwrpasol i fyfyrwyr er mwyn ysbrydoli a chynhyrchu darlithwyr Hanes a Hanes Cymru i’r dyfodol. Gyda strategaeth ‘Miliwn o siaradwyr Cymraeg’ Llywodraeth Cymru, bydd galw am ragor o athrawon Hanes sy’n gallu trin a thrafod y maes yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn y gall Hanes, fel pwnc sy’n parhau i fod yn boblogaidd ac yn uchel ei barch fel pwnc dewisol TGAU a Safon Uwch, fod yn un a fydd yn galw am raddedigion Hanes dwyieithog.

Strwythur y Cynllun
Mae’r Cynllun Pwnc Hanes a Hanes Cymru yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o’r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi, ynghyd â’r cyfleoedd a’r heriau sy’n benodol i faes Hanes a Hanes Cymru.

Bu datblygiad cadarn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes a Hanes Cymru, gyda phrifysgolion Aberystwyth a Bangor yn darparu o leiaf 120 credyd drwy’r Gymraeg, Caerdydd yn darparu 60, a cheir 40 credyd yn Abertawe. Mae modd astudio modiwlau hanes a hanes Cymru ym mhrifysgolion

Aberystwyth, Bangor, Abertawe a Chaerdydd. Cyrhaeddwyd targed Cynllun Academaidd 2013 ar gyfer nifer y 'myfyrwyr sy'n astudio'n sylweddol yn y Gymraeg (40 credyd)' erbyn 2015/16. Bydd ffocws ar ychwanegu at brofiad myfyrwyr Cymru ac at gryfhau seiliau a dilyniant i'r pwnc er mwyn meithrin cenhedlaeth arall o arbenigwyr Hanes a Hanes Cymru Cymraeg eu hiaith. Drwy'r Coleg Cymraeg, buddsoddwyd mewn swyddi ym maes Hanes Canoloesol ym mhrifysgolion Aberystwyth a Bangor, a llwyddwyd i gyflwyno gwyddor Hanesyddiaeth a modiwlau amrywiol yn gydweithredol i nifer o brifysgolion drwy swydd darlithydd cenedlaethol y Coleg Cymraeg.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol o fewn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, e.e. drwy'r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar ddyraniad grant pynciol a ph'un a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. O ran y Cynllun Pwnc Hanes a Hanes Cymru, ystyrir bod y ddarpariaeth ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Bangor yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd cenedlaethol. Fel pwnc 'aeddfed' o fewn categori ariannu'r Coleg, bydd Hanes yn parhau i dderbyn cyllid a chefnogaeth tuag at, er enghraifft, cynnal digwyddiadau, prosiectau penodol megis cyhoeddi, ac ysgoloriaethau ymchwil. Bydd y rhain i gyd yn gymorth i gefnogi a datblygu'r pwnc a'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio'n flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	**Darpariaeth**	**Staff**	**Myfyrwyr[1]**
Prifysgol Aberystwyth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. MA Hanes Cymru yn cynnig 120 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n gymwys am Ysgoloriaeth Meistr y Coleg.	0.5 aelod o staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 6 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 0.5 aelod o staff rhan-amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. 6 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 44 yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3.
Prifysgol Bangor	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	2 aelod o staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 5 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 2 aelod o staff rhan-amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. 3 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 49 yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3.

[1] Gwybodaeth yn seiliedig ar y data HESA diweddaraf.

Prifysgol Abertawe	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	2 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 1 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 14 yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3.
Prifysgol Caerdydd	O leiaf 60 credyd bob blwyddyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.	2 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 2 aelod staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. [ond yn nodi mai 0.5 yw lefel capasiti addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfartaledd].	Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 44 yn gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol	
Profiad Myfyrwyr	• Bydd gweithgareddau cwrs-gysylltiedig yn cael eu trefnu ar y cyd â'r prifysgolion a'r Swyddog Datblygu ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gan gynnwys cynadleddau cenedlaethol. Bydd y rhain yn dilyn cyfres o gynadleddau blynyddol sydd wedi eu trefnu eisoes ar themâu amrywiol megis, 'Cymru a'r Tuduriaid' (2015), 'Cymru ac Iwerddon' (2016) a 'Dosbarth a Rhywedd' (2017). • Mae'r prifysgolion, gyda chymorth y Coleg, yn darparu modiwlau cydweithredol mewn meysydd amrywiol, megis 'Rhyfel Cartref America' (Abertawe a Bangor); 'Concro'r Byd' (Abertawe, Aberystwyth a Bangor) a'r 'Rhyfel Mawr' (Abertawe a Bangor). Bydd y prifysgolion a'r Coleg yn cydweithio er mwyn darparu modiwlau cydweithredol sy'n rhoi dewis helaethach o ddarpariaeth i fyfyrwyr. Mae hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr mewn un sefydliad fanteisio ar fodiwlau cydweithredol. • Bydd y panel Hanes a Hanes Cymru yn adnabod yr angen am ragor o adnoddau agored yn y Gymraeg ar y Porth a'r Llyfrgell Adnoddau i fyfyrwyr Hanes a Hanes Cymru ac yn cynnig syniadau ar gyfer cynhyrchu adnoddau newydd. • Anelir at ddatblygu ymhellach yr ymdeimlad o berthyn a rhannu gwybodaeth i'r myfyrwyr Cymraeg ar faterion sy'n ymwneud â'r pwnc a chyfleoedd gwaith. Gwneir hyn drwy gyfrwng cynhadledd genedlaethol, cylchlythyr pynciol ddwywaith y flwyddyn a chyfrif Twitter @HanesCCC. • Mae myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn manteisio ar ddosbarthiadau llai ac felly'n elwa ar berthynas agosach â'u darlithwyr. • Bydd y panel yn pwyso ar adrannau Gwasanaethau Gyrfaoedd y prifysgolion er mwyn cynnwys darpariaeth Gymraeg ac er mwyn dangos mantais yr iaith a chynnig profiad gwaith cyfrwng Cymraeg i'r myfyrwyr Hanes a Hanes Cymru. • Bydd y panel yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa i fyfyrwyr Hanes a Hanes Cymru fel rhan o'r amrywiaeth o ddigwyddiadau a drefnir ar y cyd â'r Coleg Cymraeg e.e. fel rhan o gynhadledd. • Gellid ymchwilio i ffyrdd o gynnig cyfnod astudio dramor i fyfyrwyr. • Bydd angen edrych ar ffyrdd o gefnogi myfyrwyr llai hyderus eu Cymraeg i ymuno â dosbarthiadau iaith. Bydd prifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd yn dysgu arfer da gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, mewn perthynas â rhoi cefnogaeth ymarferol i gryfhau sgiliau Cymraeg myfyrwyr. • Bydd y panel, gyda'r Coleg, yn parhau i gynnig Gwobr Goffa Dr John Davies y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am y traethawd gorau ar Hanes Cymru gan fyfyriwr.
Darlithwyr	

	• Gwelwyd bod nawdd a chefnogaeth y Coleg wedi helpu i greu swyddi darlithio newydd ym mhrifysgolion Aberystwyth, Bangor a swydd genedlaethol, ac wedi cefnogi darpariaeth Gymraeg yng Nghaerdydd ac Abertawe yn ogystal. Mae amrediad o ddarlithwyr sy'n medru'r Gymraeg yn dysgu Hanes fel pwnc mewn sawl prifysgol. Bydd angen sicrhau bod yr amrywiaeth modiwlau a'r ddarpariaeth eang yn parhau ar draws Cymru. • Mae'r Coleg wedi buddsoddi yn natblygiad gyrfa darlithwyr gan gefnogi cyfnod sabothol i'r Darlithydd Cenedlaethol a darlithydd arall a gyflogwyd o dan nawdd y Coleg. • Buddsoddodd y Coleg mewn 4 myfyriwr PhD sydd nawr yn darlithio yn y maes. • Bydd angen sefydlu camau pendant er mwyn sicrhau dilyniant o fyfyrwyr israddedig i fyfyrwyr ôl-raddedig er mwyn sicrhau dyfodol academaidd y pwnc, yn enwedig mewn meysydd lle y nodir y bydd prinder arbenigwyr yn y dyfodol, er enghraifft, Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar yn ogystal â meysydd sy'n boblogaidd gyda myfyrwyr ar hyn o bryd. • Dylid datblygu strategaeth benodol er mwyn adnabod bylchau darlithio yn y maes dros y 10 mlynedd nesaf; dylid datblygu strategaeth er mwyn adnabod a meithrin myfyrwyr sy'n debygol o fynd yn eu blaen i fod yn fyfyrwyr ymchwil ar ôl graddio; bydd y prifysgolion yn targedu myfyrwyr Cymraeg y tu allan i Gymru er mwyn eu hannog i ddilyn cyrsiau ôl-radd yn y brifysgol. Bydd y mater hwn yn bwynt agenda yng nghyfarfodydd y panel. • Bydd y Panel Hanes a Hanes Cymru yn cydnabod a chefnogi gwaith y darlithwyr i gyfrannu at y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) nesaf yn 2021 gan nodi bod gwaith yn y Gymraeg yn cael ei dderbyn a chydnabod pwysigrwydd cyrraedd safonau uchel ar statws i'r pwnc a'r prifysgolion.
Cwricwlwm	• Bydd angen sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig rhywchwant eang o gyfnodau hanesyddol i fyfyrwyr eu hastudio. Ni fydd modd cynnig rhain ymhob safle ond bydd angen edrych ar ffyrdd o gydweithio lle bo hynny'n briodol a bod y cwricwlwm yn ateb anghenion a deisyfiadau myfyrwyr. • Bydd y panel yn ymateb yn rhagweithiol i ddiddordebau ac anghenion y myfyrwyr i weld pa fath o fodiwlau sydd fwyaf poblogaidd ac i ganfod barn y myfyrwyr wrth lunio cwricwlwm i'r dyfodol. • Bydd y panel yn cydnabod fod gan gwahanol brifysgolion gryfderau gwahanol ym maes dysgu ac ymchwil Hanes, ac felly'n ceiso datblygu modiwlau cydweithredol lle bo'r rheini'n bosibl a bod angen. • Gellid edrych ar ffyrdd o ddod â gwerth a defnydd ychwanegol i'r ddarpariaeth drwy gyd-weithio gyda phartneriaid allan, er enghraifft, Wicipedia Cymraeg i roi erthyglau hanesyddol ar y wefan wedi eu hysgrifennu a'u golygu gan fyfyrwyr a darlithwyr neu sefydliad megis y Llyfrgell Genedlaethol. • Bydd y panel yn trafod rhannu modiwlau Hanes gyda phynciau eraill megis Gwleidyddiaeth, Athroniaeth a'r Gymraeg. • Bydd aelodau'r panel yn edrych ar ffyrdd o gyflwyno profiadau gwaith a llwybrau gyrfa posibl i'r myfyrwyr.

	• Bydd angen edrych ar gryfhau'r llwybr dilyniant o gwricwlwm israddedig i gefnogi myfyrwyr PhD yn y pwnc. Dylid edrych ar ffyrdd o apelio at ddarpar fyfyrwyr posibl sydd efallai eisoes mewn gwaith ond sy'n dymuno cael cymhwyster ychwanegol, neu apelio at fyfyrwyr sy'n astudio pynciau eraill. • Gellid trefnu bod ymarferwyr yn y maes yn rhoi cyflwyniadau a chynnal modiwlau arbenigol oddi mewn i ddarpariaeth adrannau. Gall hyn gynnwys cyflwyniadau ar weithio mewn meysydd megis curadu, addysgu, newyddiaduraeth, archeoleg ac ymchwilio.
Canlyniadau Myfyrwyr	• Mae canlyniadau'r myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cymharu'n ffafriol â myfyrwyr eraill o fewn eu hadrannau. Gwelir hyn drwy ganlyniadau gradd ynghyd â thrwy'r nifer o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n ennill gwobrau am y myfyrwyr gorau/traethodau hir gorau.
Adnoddau	• Bu'r Coleg Cymraeg yn gyfrifol am ariannu nifer o adnoddau hanesyddol sydd wedi'u llwyfannu'n agored ar y Porth a'r Llyfrgell Adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau Hanes yr Oesoedd Canol, e-lyfr ar agweddau Ffrainc at Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ogystal ag ailgyhoeddi'n ddigidol nifer o hen lyfrau allan-o-brint sydd o ddiddordeb i haneswyr. • Bydd angen cynhyrchu rhagor o ddeunydd i'w roi ar y Porth a'r Llyfrgell Adnoddau. Gall y rhain gynnwys adargraffiadau ynghyd â chyhoeddiadau newydd. Ymysg y cyhoeddiadau newydd, rhoddir blaenoriaeth i gyfeirlyfr ar Hanesyddiaeth a fydd o ddefnydd i fyfyrwyr bl1 prifysgol ynghyd â disgyblion Lefel A. • Dylid sicrhau bod ysgolion a cholegau addysg bellach Cymru yn ymwybodol o'r deunydd sydd ar gael. Gwneir hyn er mwyn cryfhau llwybr dilyniant y pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)	• Dangosodd gwaith ymchwil y FfRhA (*Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu*, neu'r TEF: *Teaching Excellence Framework*) a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017 bod myfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy tebygol o gael swyddi gwell ac yn llai tebygol o adael eu cyrsiau'n gynnar o gymharu â myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau uniaith Saesneg.[2] • Mae llwybr cyflogadwyedd myfyrwyr Hanes wedi arwain nifer at faes Addysg. Gyda'r cynnydd disgwyliedig yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sgil strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, gellir disgwyl y bydd hyn yn llwybr gyrfa naturiol i sawl myfyriwr.

[2] http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/267779-myfyrwyr-cyrsiau-cymraeg-yn-cael-swyddi-gwell

	• Mae swyddi ym maes Newyddiaduraeth, Cysylltiadau Cyhoeddus a Churadu hefyd yn boblogaidd. Dylid ymchwilio i ffyrdd o ddarparu gwybodaeth a phrofiad gwaith yn y meysydd hyn fel rhan o becyn profiad myfyrwyr Hanes cyfrwng Cymraeg. • Gellid edrych ar lwyddiant prifysgolion ac ymgeiswyr Tystysgrif Sgiliau Iaith ar gyfer darparu cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr eraill mewn gweithleoedd sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg neu weithle yng Nghymru fel rhan o'r cwricwlwm. Mae adroddiad 'What do graduates do? 2017/18' sy'n gwerthuso canlyniadau arolygon DLHE (Cyrchfannau myfyrwyr 6 mis ar ôl graddio) yn nodi bod 86.9% o raddedigion Hanes mewn cyflogaeth neu astudiaethau pellach 6 mis ar ôl graddio. https://www.hecsu.ac.uk/assets/assets/documents/what_do_graduates_do_2017.pdf Cyfleoedd Swyddi / Gyrfaoedd posibl Swyddi sydd â chysylltiad uniongyrchol â chyrsiau gradd Hanes a Hanes Cymru: • Rheolwr Treftadaeth • Archwiliwr Adeiladau Hanesyddol neu Swyddog Cadwraeth • Swyddog Addysg Amgueddfa • Curadur Amgueddfa neu Oriel • Athro/athrawes Ysgol Uwchradd. Swyddi y mae cefndir mewn Hanes yn ddefnyddiol ar eu cyfer: • Llyfrgellydd • Archaeolegydd • Archifydd • Newyddiadurwr • Gwasanaeth Sifil • Cynorthwy-ydd Golygyddol • Swyddog Gwybodaeth • Gwaith Gwleidyddol • Cyfreithiwr
Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)	• Mae nifer dda o fyfyrwyr yn astudio Hanes a Hanes Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sawl her ynghylch datblygiad pellach i'r maes. Bydd angen sicrhau nad yw'r pwnc yn colli tir i bynciau eraill tebyg nac i brifysgolion y tu hwnt i Gymru. Bydd y panel yn holi barn myfyrwyr a sicrhau bod darpariaeth

	Gymraeg i unrhyw ddatblygiad newydd o fewn darpariaeth y prifysgolion yng Nghymru, ystyried opsiwn megis gefeillio â phrifysgol yn yr Iwerddon lle y gall myfyrwyr astudio am flwyddyn. • Mae angen sicrhau bod y myfyrwyr hynny sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn astudio'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (h.y. bod dwy brifysgol yn darparu 80 credyd y flwyddyn neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg a dwy brifysgol arall yn darparu o leiaf 40 credyd y flwyddyn). • Mae angen sicrhau llwybr dilyniant clir i astudiaethau ôl-raddedig gan efallai dargedu myfyrwyr sydd wedi dilyn cwrs israddedig y tu allan i Gymru.

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 mlynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
1. Darpariaeth	Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn mewn dwy brifysgol a 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn dwy brifysgol arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Parhau i gynnig darpariaeth ôl-radd drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth a Bangor a goruwchwyliaeth ymchwil drwy'r Gymraeg yng Nghaerdydd ac Abertawe. Ymchwilio a datblygu ffyrdd o gynorthwyo myfyrwyr llai hyderus eu Cymraeg i ddilyn modiwlau Cymraeg ac i gynnig cefnogaeth ieithyddol iddynt.	Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn mewn tair prifysgol a 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn prifysgol arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Parhau i gynnig modiwlau sy'n apelgar i'r myfyrwyr, sy'n cynnwys trawstoriad eang o ran cyfnodau a meysydd ar draws y gwahanol brifysgolion gyda'r opsiwn clir i rannu modiwlau rhwng sefydliadau. Sicrhau bod elfen profiad gwaith fel rhan o'r ddarpariaeth Gymraeg. Strwythur mewn lle ym mhob prifysgol i gefnogi a magu hyder yn sgiliau iaith myfyrwyr llai hyderus eu Cymraeg. Adnabod mannau gwan a bylchau mewn astudiaethau hanesyddol Cymreig. Ymchwilio i ddarparu rhagor o fodiwlau ar hanes rhyngwladol a	Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn mewn tair prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg ac o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn prifysgol arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Meithrin cenhedlaeth newydd o ddarlithwyr. Amrywiaeth o fodiwlau ar feysydd tramor ar gael yn y Gymraeg. Modiwlau Hanes a Hanes Cymru ar gael i'w rhannu â phrifysgolion. Adnoddau Hanes a Hanes Cymru newydd e.e. e-lyfrau, cyflwyniadau ar y Porth, ar gael i'w rhannu â myfyrwyr Lefel A a'r cyhoedd.

		gwledydd tramor drwy gyfrwng y Gymraeg.	
2. Myfyrwyr	80 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws Bl1–Bl3.	100 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws Bl1–Bl3.	110 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws Bl1–Bl3.
3. Datblygu darpariaeth ôl-radd	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn. Cwrs Meistr 120 credyd yn y Gymraeg.	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn. Datblygu perthynas strwythuredig â'r byd gwaith.	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn.
4. Dilyniant a chyd-weithio gydag ysgolion	Cyswllt ag ysgolion a Cholegau Addysg Bellach sy'n dysgu Hanes. Magu perthynas â CBAC. Rhannu adnoddau â disgyblion Chweched Dosbarth.	Digwyddiad Hanes i Ddisgyblion ysgol / Colegau Addysg Bellach ac Athrawon.	Adnoddau Hanes yn y Gymraeg ar gyfer Lefel A (cydweithio gyda CBAC)
5. Adnoddau	Rhoi 'Adnoddau' fel pwynt trafod ym mhob agenda cyfarfod Panel Hanes a Hanes Cymru.	Cyhoeddi e-lyfr ar Hanesyddiaeth. Llunio rhestr o lyfrau ym maes Hanes y gellir eu hailgyhoeddi ar-lein petai'r cyfle a'r cyllid ar gael. Ystyried datblygu Adnoddau Hanes a Hanes Cymru ar gyfer disgyblion Lefel A (cydweithio gyda CBAC)	Ailgyhoeddi llyfrau Hanes sydd allan o brint yn electronig. Adnodd Hanes a Hanes Cymru ar gyfer disgyblion Lefel A.

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	**Nod gweithredu**	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 mlynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
Prifysgol Aberystwyth	**Myfyrwyr yn astudio 40 credyd**	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 12 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 12 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Nifer Darlithwyr	6 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	6 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	6 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygu'r ddarpariaeth ôl-radd.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydweithio i ddatblygu adnoddau a darpariaeth Hanes a Hanes Cymru ar y cyd â phrifysgolion eraill.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Modiwlau ac Adnoddau	Ystyried y galw i ddatblygu modiwl cydweithredol newydd.	Modiwlau cydweithredol ar gael, os yn briodol.	Modiwlau Hanes a Hanes Cymru ar gael i'w rhannu â phrifysgolion.

				Cyfrannu at adnoddau lle bo hynny'n briodol e.e. e-lyfrau, cyflwyniadau ar y Porth, sydd ar gael i'w rhannu â myfyrwyr Lefel A a'r cyhoedd.
	Ysgoloriaethau PhD	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn.	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn.	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn.
	Cyflogadwyedd	Archwilio i gynnwys elfennau galwedigaethol fel rhan o'r cwricwlwm Hanes.	Prif ffrydio elfennau o brofiad gwaith yn rhan graidd o gyrsiau gradd Hanes cyfrwng Cymraeg.	Atgyfnerthu cyswllt adrannau hanes â diwydiant a chyflogwyr yn y sector.
Prifysgol Bangor	**Myfyrwyr yn astudio 40 credyd**	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 8 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Nifer Darlithwyr	3 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

	Modiwlau ac Adnoddau	Datblygu modiwlau craidd cydweithredol newydd ar y cyd â phrifysgolion eraill.	Rhannu modiwlau craidd cydweithredol â phrifysgolion eraill lle bo'n briodol.	Modiwlau Hanes a Hanes Cymru ar gael i'w rhannu â phrifysgolion. Cyfrannu at adnoddau lle bo hynny'n briodol e.e. e-lyfrau, cyflwyniadau ar y Porth, sydd ar gael i'w rhannu â myfyrwyr Lefel A a'r cyhoedd.
	Ysgoloriaethau PhD	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn.	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn.	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes bob blwyddyn.
	Cyflogadwyedd	Archwilio i gynnwys elfennau galwedigaethol fel rhan o'r cwricwlwm Hanes.	Sicrhau bod elfennau o brofiad gwaith yn rhan graidd o gyrsiau gradd Hanes cyfrwng Cymraeg.	Atgyfnerthu cyswllt adrannau hanes â diwydiant a chyflogwyr yn y sector
Prifysgol Abertawe	**Myfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd**	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 8 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 8 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Nifer Darlithwyr	1 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	1 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	1.5 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydweithio i ddatblygu adnoddau a darpariaeth Hanes ar y cyd â phrifysgolion eraill.	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Modiwlau ac Adnoddau	Datblygu modiwlau ar y cyd ag adrannau eraill, megis Cymraeg a Gwleidyddiaeth.	Darpariaeth modiwlau ar gael ar y cyd.	Modiwlau Hanes ar gael i'w rhannu â phrifysgolion. Cyfrannu at adnoddau lle bo hynny'n briodol e.e. e-lyfrau, cyflwyniadau ar y Porth, sydd ar gael i'w rhannu â myfyrwyr Lefel A a'r cyhoedd.
	Cyflogadwyedd	Archwilio i gynnwys elfennau galwedigaethol fel rhan o'r cwricwlwm Hanes.	Sicrhau bod elfennau o brofiad gwaith yn rhan graidd o gyrsiau gradd Hanes cyfrwng Cymraeg.	Atgyfnerthu cyswllt adrannau hanes â diwydiant a chyflogwyr yn y sector.
Prifysgol Caerdydd	**Myfyrwyr astudio 40 credyd**	O leiaf 4 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Nifer Darlithwyr	0.5 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	1 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	1.5 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

	Darpariaeth	O leiaf 60 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 60 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 60 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Modiwlau ac Adnoddau	Datblygu cwrs ôl-radd Gradd Meistr.	Cwrs Meistr ar gael. Cydweithio i ddatblygu adnoddau Hanes ar y cyd â phrifysgolion eraill, lle bo hynny'n briodol.	Modiwlau Hanes ar gael i'w rhannu â phrifysgolion. Cyfrannu at adnoddau, lle bo hynny'n briodol e.e. e-lyfrau, cyflwyniadau ar y Porth, sydd ar gael i'w rhannu â myfyrwyr Lefel A a'r cyhoedd.
	Cyflogadwyedd	Archwilio i gynnwys elfennau galwedigaethol fel rhan o'r cwricwlwm Hanes.	Sicrhau bod elfennau o brofiad gwaith yn rhan graidd o gyrsiau gradd Hanes cyfrwng Cymraeg.	Atgyfnerthu cyswllt adrannau hanes â diwydiant a chyflogwyr yn y sector.